

Wythnos Genedlaethol Diogelu 2018

Stop It Now!
Digwyddiadau Codi
Ymwybyddiaeth o
Gam-drin Plant yn
Rhywiol

Protocol ar gyfer
Datrys Gwahaniaethau
Proffesiynol

Canllawiau Ymarfer ar
gyfer
Defnyddio/Cwblhau
Templed Cronolegol
BDPRhCaF

Adolygiadau Ymarfer
Plant wedi'u Cyhoeddi

Adolygiad o
Weithdrefnau Diogelu
Cymru Gyfan



Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu rhwng 12 a 16 Tachwedd 2018.

Y thema eleni oedd 'Camfanteisio' gyda nifer o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth.

Cynhaliodd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gynhadledd y Bobl Ifanc yn Ysgol Uwchradd San Teilo ar 14 Tachwedd a oedd yn hynod lwyddiannus, gyda pherfformiadau gan Lysgenhadon Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac amrywiaeth o weithdai. Daeth Dimitri Jordan a Jacob Riggons, o Ymddiriedolaeth St. Giles, cyn-aelodau gangiau sydd wedi cael diwygiad, i siarad â disgyblion am y profiadau a gafodd y ddau yn eu bywydau a'r peryglon o droseddau cyllyll a gangiau cyffuriau, gan gynnwys Llinellau Cyffuriau.

Cynhaliwyd hefyd Gynhadledd y Gweithwyr Proffesiynol yn ystod yr wythnos gyda phrif gyflwyniadau ar 'Ymwybyddiaeth o Droseddau a Thwyll Seiber', 'Camfanteisio ar Bobl yn yr 21ain Ganrif', 'Diogelu Plant mewn Chwaraeon', 'Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol' a 'Bechgyn a Dynion Ifanc mewn Perygl o Gamfanteisio Rhywiol'. Cafodd y cyflwyniad olaf ei seilio ar waith ymchwil Barnardo's, a chlywyd hefyd leisiau 4 unigolyn ifanc a oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil.

I ddod â'r Wythnos Diogelu i ben mewn ffordd addas, cynhaliwyd Noson Gwobrau Diogelu yng Ngorsaf Heddlu Canol Caerdydd a gwobrwywyd y rheiny a gyfrannodd at ddiogelu mewn modd rhagorol yn ystod y flwyddyn. Agorodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jon Drake y seremoni a chafodd y gwobrau eu cyflwyno gan y Cynghorwyr Hinchey ac Elsmore. Roedd y noson yn hynod lwyddiannus.

Mae'r Bwrdd yn diolch i bawb a gymerodd ran mewn gwneud yr Wythnos Diogelu Genedlaethol yn llwyddiant gwych!

Bydd paratodau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu 2019 yn dechrau yn y flwyddyn newydd, felly os dymunwch gymryd rhan, cysylltwch â'r Uned Fusnes ar 02920 871891 neu e-bostiwch i BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

Sharron Wareham o Barnardo's gyda 4 unigolyn ifanc a wnaeth gyflwyniadau yng Nghynhadledd y Gweithwyr Proffesiynol yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu.



Stop It Now!! Digwyddiadau Codi Ymwybyddiaeth o Gam-drin Plant yn Rhywiol

Neges i'ch atgoffa bod lleoedd o hyd i'w cadw ar gyfer y Digwyddiadau Codi Ymwybyddiaeth o Gam-drin Plant yn Rhywiol a gynhelir gan Sefydliad Lucy Faithfull, sy'n elusen amddiffyn plant, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Dyma ddyddiadau'r sesiynau i weithwyr proffesiynol:

Dydd Gwener 1 Chwefror 2019, 13:00 - 17:00 yn y Fro

Dydd Mercher 6 Mawrth 2019, 09:00 - 13:00 yng Nghaerdydd

A dyma'r rhai ar gyfer rhieni/gofalwyr:

Dydd Llun 14 Ionawr 2019, 15:30 - 18:00 yng Nghaerdydd

Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019, 10:00 - 12:30 yng Nghaerdydd

Dydd Llun 11 Mawrth 2019, 15:30 - 18:00 yng Nghaerdydd

Cysylltwch â'r Uned Fusnes er mwyn cadw eich lle.



Adolygiadau Ymarfer Plant wedi'u Cyhoeddi

Mae **CPR 03/2016** eisoes wedi'i gyhoeddi gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ynghyd ag argymhellion ynglŷn â hyfforddiant, cymorth a chyngor, gan sicrhau bod Adrannau Addysg ar draws y rhanbarth yn ymgysylltu ag ysgol y plentyn mewn ffordd ystyrlon, eu bod yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a'u bod yn cyflwyno templed llinell amser amlasiantaeth cyson wedi'i safoni.

Gellir gwneud cais am gopiâu o'r adroddiad drwy'r Uned Fusnes neu gellir ei lawrlwytho yma: www.bdrhcaerdyddarfro.co.uk

Linda Hughes-Jones, Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn derbyn ei gwobr gan y Cynghorydd Elsmore yn ystod Seremoni Gwobrau Diogelu.

Yn gyffredinol cyflwynwyd 18 gwobr i staff ar draws yr holl asiantaethau.



Dimitri Jordan, Jacob Riggons a Rebecca Miller, Ymddiriedolaeth St Giles, yng Nghynhadledd y Bobl Ifanc yn Ysgol Uwchradd San Teilo yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu

Canllawiau Ymarfer ar gyfer Defnyddio/Cwblhau Templed Cronoleg BDPRhCaF

Cafodd y canllawiau ymarfer a'r Templed Cronoleg eu cymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar 20 Tachwedd. Cânt eu defnyddio gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau statudol a gall hefyd fod yn destun cynlluniau amddiffyn plant. Gellir lawrlwytho'r ddogfen o wefan y Bwrdd Diogelu:

<https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/plant/gweithwyr-proffesiynol->



Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol

Cafodd y protocol ei gymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar 2 Tachwedd. Lluniwyd hwn i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, neu gydag oedolion mewn perygl, wrth geisio dod o hyd i ddatrysiad mewn achosion pan fo anghydfod neu bryder proffesiynol ynglŷn ag ymarfer diogelu rhyngasiantaethol. Gellir lawrlwytho copi o'r Protocol ar wefan y Bwrdd Diogelu.

Adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan - Diweddariad

Cafodd drafft 'y Ddyletswydd i Adrodd' ei ystyried gan y grŵp datblygu a chafodd adborth o ymgynghoriad ei ystyried gan fwrdd y project sydd wedi cytuno ar gamau yn ôl yr adborth.

Mae'r adran 'Ymchwiliad Cychwynnol, Ymateb i Adroddiad a Gwneud Penderfyniadau' wedi ei rhannu'n ddwy adran ar wahân oherwydd ei maint. Mae Ymchwiliad Cychwynnol ac Ymateb i Adroddiad wedi eu hystyried gan y grŵp datblygu a'u trafod gan fwrdd y project a chaiff y rhain eu hanfon i ymgynghori arnynt. Bydd y grŵp datblygu yn cwrdd i drafod yr adran 'Gwneud Penderfyniadau' ym mis Rhagfyr ac, yn dilyn hyn, trafodir yr adran gan fwrdd y project ym mis Ionawr cyn ei hanfon i ymgynghori arni.



William Farnham o Gynllun Gwarchod Cymdogaeth Gorllewin Caerdydd yn cynnal standin wybodaeth yn y Sioe Deithiol Atal Troseddu ac Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch yn ystod Wythnos Genedlaethol Ddoneli.

Y Seremoni Gwobrau Diogelu a gynhaliwyd yng Ngorsaf Heddlu Canol Caerdydd nos Wener 16 Tachwedd.



I gysylltu â'r Uned Fusnes, ffoniwch 02922 330880
neu e-bostiwch i BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk